**FFURFLEN YMATEB –**

**Cynnig i gau Ysgol Syr John Rhys Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Syr John Rhys o 31/8/25, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Mynach. Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu rhanddeiliaid wneud sylwadau ar y prif gynnig, yr opsiynau amgen ac awgrymu opsiynau eraill.** -----------------------------------------------------------------------------------------------------

**1. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cysylltiad â'r ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio arni?**
**Rhiant/ gofalwr neu warcheidwad**
**Darpar riant / gofalwr neu warcheidwad**
**Llywodraethwr**
**Staff**
**Aelod o'r gymuned**
**Cyngor cymuned**
**Arall: nodwch os gwelwch yn dda** – Ffred Ffransis, ar ran Grwp Ymgyrch Addysg, Cymdeithas yr Iaith

**2. Rhowch unrhyw sylwadau ar y cynnig i gau Ysgol Syr John Rhys:**
Nid ar chwarae bach y dylid amharu ar addysg plant ysgol, nag amddifadu cymuned o ysgol yn eu plith yn arwydd o fywyd newydd a gobaith at y dyfodol, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fwriadwn ddwyn unrhyw anfri ar allu proffesiynol swyddogion yn yr Adran Addysg. Maent yn gweithio dan bwysau mawr amserlen rhy frysiog a chyllideb cyfyngedig iawn. O ganlyniad , ni ellir cymryd y ddogfen hon, sydd I fod yn sail I ymgynghoriad statudol, fel ymdrech difrifol I ddadansoddi'r sefyllfa, nac I gynnig opsiynau amgen wedi eu gwerthuso'n llawn, nac I ystyried o ddifri effaith cau'r ysgol ar y gymuned (sydd a'r ysgol yn unig fan cyfarfod) nac ar yr iaith Gymraeg, nag ymwybyddiaeth o safle diarffordd y gymuned a'r ysgol ynymyl y ffin dwyreiniol. Ni bu angen gweithredu I fygwth dyfodol yr ysgol hon. Dywed y Cod Trefniadaeth Ysgolion y dylid edrych ar ddyfodol ysgol os oes 25% o lefydd gwag, a chyfanswm o dros 30 lle gwag I gyd. Nid yw hyn yn wir am yr ysgol hon. Mae'r symudiad I gau'r ysgol yn codi o sefyllfa gyllidol y Cyngor ei hun, nid oherwydd diffygion ar ran y Cyngor

Hyderwn nad yw safon yr adroddiad hwn yn adlewyrchiad ar allu swyddogion, ond yn hytrach yn ganlyniad I'r gorchwyl a roddwyd iddynt I gyflawni dadansoddiad trwy ymarferiad swyddfa, heb ymweld ag ysgolion na

chymunedau I drafod cyn ffurfio cynnig I gau'r ysgol, Ac i ddibynnu'n unig ar ystadegau moel a brawddegau generig – fel petaent wedi eu cynhyrchu trwy Deallusrwydd Artiffisial – i gadarnhau rhagfarnau'r Cyngor.

Dyma'r llinyn sy'n rhedeg trwy'r Papur Ymgynghorol – fod penderfyniad a chynnig wedi bod ar ddechrau'r broses I gau nifer o ysgolion am resymau (digyswllt ag addysg) gwneud arbedion yn y gyllideb gyffredinol – yn gwbl groes i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion sydd yn mynnu fod angen gweithredu ar sail rhagdyb yn erbyn cau ysgolion gwledig ar y rhestr (fel Ysgol Syr John Rhys) a chynnig cau ddim ond os bydd pob cynnig arall yn methu. Yn lle hynny, penderfynodd swyddogion fod angen cau ysgolion, hysbysu penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr o'r bwriad a dweud y byddai maes o law gyfle iddynt fynegi unrhyw syniadau eraill. Dyma droi'r Cod ar ei ben.

Awgrymir yn y ddogfen fod y broses wedi dechrau yn Chwefror 2024. Dywedir fod y cyfarfod Cyngor llawn i gymeradwyo arbedion cyllideb wedi digwydd ar 29/2/24 ar ol cyfarfodydd gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr yn ystod y mis. Ond yr hyn a wnaeth y Cyngor ar 29/2/24 oedd derbyn argymhelliad a wnaed yn niwedd Ionawr 2024 i edrych ar yr ystad o ysgolion er mwyn gwneud arbedion yn y gyllideb. ***Dyna yrrodd yr holl broses***. Galwyd *wedyn* y penaethiaid a'r cadeiryddion llywodraethwyr i mewn i'w hysbysu o'r bwriad I gau'r ysgolion a'u hysbysu y gallen nhw wedyn gynnig unrhyw opsiynau eraill. Mewn gohebiaeth gyda chadeirydd Llywodraethwyr Llangwyryfon (gw ohebiaeth yn yr atodiad), awgrymwyd y dylid aros tan yr Ymgynghoriad Statudol cyn cynnig sylwadau ac opsiynau.

Mae'r gweithred hwn o benderfynu ar fwriad i gau ysgolion ac *wedyn* dweud wrth bobl i anfon unrhyw opsiynau eraill atynt yn gwbl groes i'r hyn sydd yn Argraffiad 2018 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a bwriad Senedd Cymru wrth ei gymeradwyo – fel y mae'r dystiolaeth yn dangos.. Mae'r Cod yn datgan yn glir fod "**Cyfraith Achosion wedi sefydlu y dylai Cyngor gynnal trafodaethau tr abo cynigion yn dal ar gam ffurfiannol**." Nid canllaw yn y Cod yw hwn, ond datgan beth yw'r sefyllfa gyfreithiol – sy'n cadarnhau'r egwyddor sylfaenol o sicrhau rhagdyb yn erbyn cau ysgol sydd ar restr y Llywodraeth o Ysgolion Gwledig (ac mae Ysgol Syr John Rhys ar y rhestr).

Petai angen rhagor o dystiolaeth fod y Cyngor wedi gweithredu'n groes i'r Cod ac i ofynion cyfreithiol, dyma esboniad yr Ysgrifennydd dros Addysg, Kirsty Williams AS, mewn ateb i gwestiwn gan Suzy Davies AS mewn cyfarfod llawn o'r Senedd ar 19.9.18 (wrth edrych ymlaen at y Côd yn dod i rym bum wythnos

yn ddiweddarach), dywedodd yr Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams "**Local authorities in those areas, if they have a school that's on the list, should start on the basis that closure is the last option and they should seek every opportunity through a variety of ways to keep those schools open"**

*Dyma gadarnhau mai bwriad Senedd Cymru, wrth gyflwyno argraffiad newydd y Côd, oedd bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol ddechrau o safbwynt diffuant rhagdyb yn erbyn cau ysgolion ar y rhestr, gan droi at gynnig o gau ysgol ddim ond os metha pob peth arall*. Ychwanegodd Kirsty Williams "**Presumption against a closure and the option to seek alternatives to keeping a school open, again, should not be left to the official consultation period, but should be employed by the council before they make any decision to go out to consultation on the future of the school".**

Mae "*chwilio* am opsiynau amgen" yn amlwg yn golygu holi a gwahodd trafodaeth, nid dilyn rhestr generig mewn swyddfa. Mae'r Cod eto'n mynnu fod yr ystyriaeth o bob opsiwn heblaw am gau ysgol yn gorfod bod yn "ofalus" ac yn "gydwybodol". Ni fyddai unrhyw lys yn derbyn fod gwrthod opsiwn gydag un frawddeg generig, ac union yr un frawddeg ym mhob un o'r dogfennau cynnig am y 4 gwahanol ysgol yn gyfystyr ag "ystyriaeth ofalus". Does dim ymdrech o gwbl i ddehongli'r opsiynau yng nghyd-destun yr ysgolion unigol nag i geisio barn rhan-ddeiliaid.

Ym mhob rhan o'r broses, bu ymdrech i gynhyrchu dogfennau generig gyda'r bwriad o "dicio blychau" priodol yn unig yn hytrach nag ystyried mater difrifol iawn dyfodol ysgolion a chymunedau ac amharu ar addysg degau o blant. Nid beirniadaeth ar y swyddogion yw hwn, ond arwydd fod y swyddogion dan bwysau mawr wrth weithio, heb amser i ystyried na thrafod o ddifri, ac yn gweithio dan gamargraff nad oedd Senedd Cymru na'r gyfraith o ddifri ynghylch mynnu proses gywir wrth gymryd cam mor ddifrifol a chau ysgol.

Dim ond braslun sydd yma o'r diffygion o ran dilyn y broses a amlinellir yn y Cod. Yr ydym wedi copio'n tystiolaeth lawn yn ATODIAD A – sef testun ein cwyn i'r Ysgrifennydd Addysg nad oedd Cyngor Ceredigion wedi dilyn gofynion y Cod wrth fynd at benderfyniad i gychwyn Ymgynghoriad Statudol ar gynigion i gau'r bedair ysgol. Yn anffodus, ni ddewisodd yr Ysgrifennydd Addysg ateb ein cwyn sylfaenol, na wneud unrhyw sylw am yr holl dystiolaeth a gyflwynon ni. Yn hytrach ymfodlonodd ar ddanfon atom aralleiriad eto o'r hyn a oedd yn y Cod ac yn hysbys yn barod i bawb. Ar ben hynny, credodd fod Cymdeithas yr Iaith

wedi camddyfynnu brawddeg gan un swyddog gan y llywodraeth, a chadarnhaodd na wyddai ar ba sail yr oedd cyfarwyddwr yn y Cyngor Sir yn gallu dweud fod y Llywodraeth wedi cymeradwyo proses y Cyngor. Byddai wedi bod o fudd i ni, i'r rhanddeiliaid, ac i'r Cyngor ei hun petai hi wedi dyfarnu'n bendant ar y mater. Ond deallwn fod eraill wedi defnyddio rhywfaint o'n tystiolaeth mewn her cyfreithiol (gyda'n caniatad parod), a bydden ni'n dychwelyd at y Gweinidog i fynnu atebion i'r cwestiynau penodol petai cyhoeddi unrhyw Hysbysiad i gau'r ysgolion. Cyflwynwn ATODIAD A i'ch sylw.

**3. A oes unrhyw opsiynau eraill y credwch y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Syr John Rhys, a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y Ddogfen Ymgynghori?**

**Oes Oes**

**Nac oes**

**Os oes, amlinellwch yr opsiwn (opsiynau amgen):**

Mae opsiwn creu Ffederasiwn ffurfiol rhwng Ysgol Syr John Rhys, Ysgol Mynach ac Ysgol Pontrhydfendigaid ***wedi ei grybwyll ond heb ei ystyried*** na'I werthuso mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Dyma, o ddifri, safon y gwerthusiad -

"Mae'r opsiwn wedi ei wrthod am y rhesymau canlynol:

➢ Byddai angen cynnal ymgynghoriad ar wahân i gydymffurfio gyda canllaw LlC 011/2014 – 'Proses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru' Wrth gwrs fod yn rhaid cynnal ymgynghoriad (byr iawn o rieni) cyn sefydlu ffederasiwn. Ydy hon o ddifri I fod yn ddadl yn erbyn creu ffederasiwn ? Yn amlwg nad dyna fwriad Senedd Cymru

➢ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r niferoedd disgyblion isel Unwaith eto, yn hunan-amlwg, ni byddai creu un bwrdd ffederal o lywodraethwyr, heb iddynt gymryd unrhyw gamau newydd, yn newid ynddo'I hun dros nos nifer disgyblion. Fodd bynnag, o greu uned addysgol gryfach, byddai ysgol mewn ffederasiwn o'r fath yn dod yn fwy deniadol i rieni hynny o blant sydd yn yr ardal. Ar gyfer teuluoedd sy'n byw rhwng pentrefi, byddai mwy o hyblygrwydd I'w cyfeirio at safleoedd ble roedd gofod (haws byth mewn ysgol aml—safle.

➢ Angen cynnal tri adeilad ysgol – yn hollol, tri adeilad I wasanaethu tair cymuned. Yn yr achos hwn, does dim adeilad cymunedol arall ym Mhonterwyd.

➢ Ni fyddai'n arwain at arbedion ariannol gofynnol – Sut y gellir gwneud honiad generig o'r fath ? Ble mae'r drafodaeth gyda'r ysgolion hyn a'r dadansoddiad i amcangyfri faint o arbedion sy'n bosibl o resymoli costau percasu, gweinyddol ac arweinyddiaeth ? Ble mae'r dadansoddiad o arbedion mewn cstau cyfalaf trwy beidio a gorfod dyblygu adnoddau ar bob safle ?

Dyw'r dadansoddiad heb gael ei wneud, a dyw'r trafodaethau heb ddigwydd.

➢ Byddai'r gost fesul disgybl yn Ysgol Syr John Rhys yn parhau 64% yn fwy na'r cyfartaledd sirol – Mae hynny'n dibynnu arb eth y byddai Bwrdd Ffederal o Lywodraethwyr yn ei wneud.

➢ Byddai'r atebolrwydd yn parhau o ran cynnal a chadw adeiladau, nawr ac yn y dyfodol Rhan o gyfrifoldeb Awdurdodau Lleol yw cynnal adeiladau I wasanaethu cymunedau. Ond mae modelau eraill y gellir edrych arnynt o soes angen Gwaith cyfalaf ar yr adeiladau hyn. Gellid sefydlu Ymddiriedolaethau Cymunedol ym Mhonterwyd ac ym Mhontarfynach a throsglwyddo adeiladau ysgolion iddynt, gan y hyddai gan ymddiriedolaethau fynediad at ffynonellau cyllid nad sydd ar gael ar gyfer ysgolion. Gallai'r Awdurdod Lleol wedyn rentu'n ol ynn unig hynny o ofod yn yr adeilad yr oedd ei angen I drefnu ysgol, yn rhan o ffederasiwn.

➢ Ni fyddai'n debygol o wella hyfywedd yr ystâd ysgolion yn y dyfodol"Dyna ddod at y gwir reswm – sail hyn oll yw fod gorchymyn I leihau'r ystad ysgolion er mwyn gwneud arbedion yn y gyllideb gyffredinol ar frys – ddim byd I'w wneud ag addysg , ac yn scir cwbl amherthnasol i drafodaeth ar fodel ffederasiwn

Nid gwerthusiad yw hwn o sut allai ffederasiwn o'r tair ysgol arbennig hyn weithio sydd yma, ond cyfres o frawddegau generig (sy'n ymddangos yn nyr holl ddogfennau ymgynghorol am y bedair ysgol) fel petaent wedi eu cynhyrchu trwy A.I. (Deallusrwydd Artiffisial). Nid oes unrhyw ymdrech yma I gyfeirio at yr ysgolion penodol hyn, er bod pob grwp o ysgolion yn llunio'r model o ffederasiwn sy'n gweddu iddyn nhw. Uchod, yr ydym wedi gwneud sylwadau (mewn inc coch) ar bob un o'r dadleuon generig hyn sy'n dangos nad oes yma werthusiad difrifol.

Pan drafodir model ffederasiwn, dywedir mewn difri mai anfantais yw fod yn rhaid I bennaeth arwain dwy ysgol yn lle canolbwyntio ar un. Byddai hon yn ddadl generig yn erbyn unrhyw ffederasiwn fyth – yn groes I'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac yn anwybyddu'r ffaith fod gwahanol fodelau ar gael – fel arweinyddiaeth unol, arweinyddiaeth ar y cyd, neu strwythur newydd o Bennaeth Ffederasiwn a Phennaeth safle ffederal.

Crybwyllwyd opsiwn amgen, ond ni bu unrhyw werthusiad difrifol.

**4. A oes gennych unrhyw bryderon am effaith y cynnig i gau Ysgol Syr John Rhys ar unrhyw un o'r canlynol: y Gymuned Pobl â nodweddion gwarchodedig h.y. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol**
**Arall: Nodwch os gwelwch yn dda _______________**
**Rhowch fanylion pellach isod**:

**5. Yn unol â Safonau'r Gymraeg mae'n ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.**
**a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'r cynnig hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**
Mae swyddfa'r Comisiynydd Iaith wedi dyfarnu fod angen asesu effeithiau'n ehangach na chyfrwng yr addysg yn unig. Yn achos y cynnig i gau Ysgol Syr John Rhys a throsglwyddo plant o Bonterwyd I Bontarfynach, gall rhini wrth gwrs anwybyddu cynllun y Cyngor Sir. Gall rhieni mewnfdwyr yn arbennig, os bydd eu Gwaith yn Aberystwyth, benderfynu ei bod ynhaws gollwng eu plant mewn ysgol gynradd Saesneg ei chyfrwng yn Aberystwyth ,, gyda'r tebygolrwydd o barhau wedyn at addysg uwchradd Saesneg ei chyfrwng. Gallai olygu colli rhai degau o blant dros y ddegawd nesaf o addysg gyfrwng Cymraeg. Yr ysgol yn eu cymuned yw prif gyswllt mewnfudwyr cymharol ifainc a'r Gymraeg. Heb y cyswllt yma a'r teimlad o berchnogaeth arni, y beryg yw gweld y Gymraeg yn bwnc/cyfrwng addysg yn unig, yn perthyn I rywrai ond yn amherthnasol iddyn nhw.

Gan mai'r ysgol yw unig adeilad cymunedol Ponterwyd, byddai cau'r ysgol yn golygu un gymuned ddwytieithog yn llai, a bod llai o deuluoedd ifainc yn ymgartrefu yn yr ardal gan hybu'r allfudiad o bobl ifainc ac yn dod yn ardal o bobl wedi ymddeol sy'n ddigon cyfoethog I fod yn annibynnol. Ymffrost rhyfedd iwn sydd gan Gyngor Ceredigion ei fod wedi llwyddo I gau rhyw 30 o ysgolion, a thanseilio nifer sylweddol o gymunedau gwledig Cymraeg yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf.

Yn fwy penodol, byddai gweithredu'r cynnig o gau'r ysgol mewn peryg o amddifadu plant cynradd o Glwb Brecwast ac o Glwb yr Urdd aro l Ysgol, a'r gymuned o ganolfan gymunedol. Yr ysgol yw'r pwerdy Cymraeg yn y gymuned

– gan gynorthwyo newydd-ddyfodiaid I ddysgu'r iaith. Naif iawn yw'r asesiad effiath ar y Gymraeg o gasglu na bydd chwalfa eu cyuned yn cael effaith ar Gymreictod y disgyblion.

**b. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effaith positif neu mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**c. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol neu'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny. A hoffech chi gael gwybod am gyhoeddiad yr Adroddiad Ymgynghori?**
**Ie** **Ie**
**Na**
**Os oes, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post:** **ffred@cadwyn.com**